



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o [www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org) ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

Actau 6, 7



- 1 Roedd y Cristnogion cynnar yn gofalu am ei gilydd ond roedd y rhai oedd o gefndir Groegaidd yn cwyno am y rhai oedd yn dod o gefndir Hebreig. Roedden nhw'n teimlo fod eu gweddwon nhw yn cael eu hesgeuluso gan y rhai oedd yn gyfrifol am ddsbarthu bwyd bob dydd. Felly dyma'r Deuddeg yn galw'r credinwyr i gyd at ei gilydd.



- 2 "Cyhoeddi a dysgu pobl beth ydy neges Duw ydy'n gwaith ni, dim trefnu'r ffordd mae bwyd yn cael ei ddsbarthu" medden nhw.



- 
- 3 “Felly frodyr a chwirydd, dewiswch saith dyn o'ch plith — dynion mae pawb yn eu parchu ac yn gwybod eu bod yn llawn o'r Ysbryd Glân. Dŷn ni'n mynd i roi'r cyfrifoldeb yma iddyn nhw. Wedyn byddwn ni'n gallu rhoi'n sylw i gyd i weddi a dysgu pobl beth ydy neges Duw.”



- 
- 4 Dyma nhw'n dewis: Steffan (dyn oedd yn credu'n gryf ac yn llawn o'r Ysbryd Glân), a Philip, Procorws, Nicanor, Timon, Parmenas, a Nicolas. Dyma nhw'n eu cyflwyno i'r apostolion, ac ar ôl gweddïo dyma'r apostolion yn eu comisiynu nhw ar gyfer y gwaith drwy roi eu dwylo arnyn nhw.



- 
- 5 Roedd pawb yn fodlon iawn hefo gwaith y 7 dyn. Roedd neges Duw yn mynd ar led, a nifer y disgyblion yn Jerwsalem yn tyfu'n gyflym.



- 
- 6 Roedd nifer fawr o'r offeiriaid Iddewig yn dilyn y Meseia hefyd.



- 
- 7 Roedd Steffan yn ddyn oedd â ffafr Duw arno a nerth Duw ar waith yn ei fywyd. Roedd yn gwneud gwyrthiau rhyfeddol ymhlith y bobl oedd yn dangos fod Duw gydag e.



- 
- 8 Ond dyma rhai o aelodau'r synagog oedd yn cael ei galw'n 'Synagog y Dynion Rhydd' yn codi yn ei erbyn (doedden nhw ddim credu fod Iesu wedi ei atgyfodi). Dyma nhw'n dechrau dadlau gyda Steffan, ond doedden nhw ddim yn gallu ateb ei ddadleuon. Roedd mor ddoeth, ac roedd yr Ysbryd Glân yn amlwg yn siarad trwyddo.



- 
- 9 Felly dyma nhw'n defnyddio tacteg wahanol, ac yn perswadio rhyw ddynion i ddweud celwydd amdano: "Dŷn ni wedi clywed Steffan yn dweud pethau cabledus am Moses ac am Dduw."



- 
- 10 Wrth gwrs achosodd hyn stŵr ymhlith y bobl a'r henuriaid a'r arbenigwyr yn y Gyfraith. Dyma nhw'n arestio Steffan ac roedd rhaid iddo ymddangos o flaen y Sanhedrin.



- 
- 11 Dyma rai yn dweud celwydd wrth roi tystiolaeth ar lw: "Mae'r dyn yma o hyd ac o hyd yn dweud pethau yn erbyn y deml ac yn erbyn Cyfraith Moses. Dŷn ni wedi ei glywed yn dweud y bydd yr Iesu yna o Nasareth yn dinistrio'r deml yma ac yn newid y traddodiadau wnaeth Moses eu rhoi i ni."



- 
- 12 Dyma pob un o aelodau'r Sanhedrin yn troi i syllu ar Steffan. Roedd ei wyneb yn disgleirio fel wyneb angel. Dyma'r archoffeiriad yn gofyn iddo, "Ydy'r cyhuddiadau yma'n wir?"




- 
- 13 Esboniodd Steffan fod yr Iddewon wedi gwrthod gwranddo ar Moses a'r proffwydi. Roedden nhw wedi cyhoeddi fod Duw am anfon Meseia. Esboniodd Steffan fod yr Iddewon wedi bradychu a lladd Iesu, y Meseia. Roedd yr hyn ddwedodd Steffan wedi gwneud yr arweinwyr Iddewig yn wyllt gandryll.



- 
- 14 Dyma nhw'n troi'n fygythiol, ond roedd Steffan yn llawn o'r Ysbryd Glân, ac wrth edrych i fyny gwelodd ogoniant Duw a Iesu yn sefyll ar ei ochr dde. "Edrychwch!" meddai, "dw i'n gweld y nefoedd ar agor! Mae Mab y Dyn wedi ei anrhydeddu — mae'n sefyll ar ochr dde Duw." Dyma nhw'n gwrthod gwranddo ar ddim mwy, a chan weiddi nerth eu pennau dyma nhw'n rhuthro ymlaen i ymosod arno.



- 
- 15 Ar ôl ei lusgo allan o'r ddinas dyma nhw'n dechrau taflu cerrig ato i'w labyddio i farwolaeth.



- 
- 16 Wrth iddyn nhw daflu cerrig ato i'w ladd, roedd Steffan yn gweddïo, "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd i." Yna syrthiodd ar ei liniau a gweiddi'n uchel, "Arglwydd, paid dal nhw'n gyfrifol am y pechod yma." Ac ar ôl dweud hynny, buodd farw.



- 
- 17 Steffan oedd y Cristion cyntaf i farw oherwydd ei ffydd yn Iesu. (Y Merthyr cyntaf).



- 
- 18 Cyfieithwyd gan [www.beibl.net](http://www.beibl.net)



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported licence.

[www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org)

---